Y Comisiwn Etholiadol

Golwg Gyffredinol – Prydain a Gogledd Iwerddon

# Golwg gyffredinol ar roddion i ymgyrchwyr di-blaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid sydd am ddeall sut y mae rhoddion yn cael eu rheoleiddio

Cynnwys:


Beth sy'n cyfrif fel rhodd

Derbyn rhoddion

Prisio rhoddion

Cofnodi ac adrodd ar roddion

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Rhoddion i ymgyrchwyr di-blaid

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr di-blaid cofrestredig sydd am ddeall sut y mae rhoddion yn cael eu rheoleiddio.

## Mae'n trafod:

- Beth sy'n cyfrif fel rhodd
- Pryd gallwch chi dderbyn rhoddion
- Prisio rhoddion
- Cofnodi rhoddion
- Adrodd yn ôl ar roddion

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Gwirio pa mor ganiataol yw rhoddion i ymgyrchwyr di-blaid

## Papurau arbenigol

- Nawdd
- Rhoddion gan ymddiriedolaethau

2

# Crynodeb

Mae rhoddion i ymgyrchwyr di-blaid cofrestredig (trydydd partïon cydnabyddedig) yn cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae hyn yn golygu, pan fyddwch yn derbyn rhodd, bod rhaid i chi wirio eich bod yn medru ei derbyn, ei chofnodi, ac mewn rhai achosion, roi adroddiad i ni.

Mae'r olwg gyffredinol hon yn esbonio'r rheolau, ac yn dweud wrthych ble y gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolaeth ar ymgyrchwyr di-blaid cofrestredig (sy'n cael eu galw hefyd yn 'drydydd partïon cydnabyddedig'). Mae'r rheolau yn ymdrin â rhoddion a gwariant sy'n ymwneud â'u gwariant ymgyrch yn y cyfnod cyn rhai etholiadau.

Am ragor o wybodaeth am y rheolau a phryd y bydd arnoch angen cofrestru â ni, gweler Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r rheolau ar roddion.

Rhaid i rai rhoddion gael eu cofnodi a rhaid rhoi adroddiad i ni amdanynt ar ôl pob etholiad. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn mewn cofrestr ar ein gwefan.

Mae'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn wahanol, gan eu bod yn rhoi adroddiad i ni bob chwarter ac nid ar adegau etholiadau neu refferenda yn unig. Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd ar wahân i bleidiau gwleidyddol ar ein gwefan.

Yn y cyfarwyddyd hwn rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at unigolyn cyfrifol cofrestredig ymgyrchydd.

# Pwy sy’n gyfrifol am roddion?

Pan fydd ymgyrchwyr di-blaid yn cofrestru â ni, mae’n rhaid iddynt hefyd gofrestru rhywun fel eu ‘hunigolyn cyfrifol’. Rhaid i’r unigolyn cyfrifol wneud yn siŵr bod ei sefydliad yn dilyn y rheolau ar roddion.

Mae hyn yn cynnwys cadw systemau addas yn y sefydliad i sicrhau bod rhoddion yn cael eu trin yn gywir.

Os ydych wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchydd di-blaid unigol, chi eich hun sy’n gyfrifol am roddion.

# Beth yw rhodd?

Arian, nwyddau neu wasanaethau yw rhodd a roddir:

- tuag at eich gwariant ymgyrch
- heb dâl neu ar delerau anfasnachol

ac sy’n werth mwy na £500.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd o arian neu eiddo arall
- nawdd i ddigwyddiad neu gyhoeddiad
- tanysgrifiad neu dâl aelodaeth
- defnydd am ddim neu gyda disgownt penodol ar swyddfa

Dan PPERA, **nid yw** unrhyw beth sydd yn werth £500 neu lai yn cyfrif fel rhodd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am nawdd yn y Papur arbenigol: Nawdd.

## Pa fath o roddion mae’r rheolau yn eu trafod?

Mae’r rheolau yn trafod pob rhodd a roddir tuag at eich gwariant ymgyrch, hyd yn oed os byddwch yn eu derbyn cyn i’r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad gychwyn.

Nid yw’r rheolau yn trafod rhoddion y byddwch yn eu derbyn:

- Tuag at wariant nad yw’n cael ei reoleiddio. Er enghraifft, taflenni a ddefnyddir cyn i’r cyfnod a reoleiddir gychwyn.
- Trwy godi arian cyffredinol, nad yw’n ymwneud â’r ymgyrch.

Am ragor o wybodaeth am wariant ymgyrch a chyfnodau a reoleiddir, gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid.

## Gan bwy allwch chi dderbyn rhodd?

Dim ond gan roddwyr a ganiateir y cewch dderbyn rhoddion.

Rhoddwr a ganiateir yw:

- Unigolyn a gofrestrwyd ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion.
- Y rhan fwyaf o gwmnïau a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Undeb llafur a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnal ei busnes yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas anghorfforedig o'r Deyrnas Unedig sy'n cynnal busnes neu weithgareddau yn y Deyrnas Unedig.

Pwysig

Am ragor o wybodaeth am sut i wirio pa mor ganiataol yw rhodd, gweler y ddogfen hon:

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Gwiriadau ar pa mor ganiataol yw rhoddion i ymgeiswyr di-blaid

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan rai mathau o ymddiriedolaethau.
Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y Papur arbenigol: Rhoddion gan ymddiriedolaethau.

Rhaid i chi beidio derbyn rhoddion gan blaid wleidyddol.

Pwysig

# Sut i benderfynu os gallwch chi dderbyn rhodd?

Pan fyddwch yn cael unrhyw rodd o fwy na £500, rhaid i chi wneud yn siŵr ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr **a** bod y rhodd o ffynhonnell a ganiateir.

Mae gennych 30 diwrnod i wirio'r ffynhonnell a phenderfynu os gallwch dderbyn y rhodd.

Os nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu na allwch fod yn siŵr pwy yw'r gwir roddwr am unrhyw reswm, rhaid i chi ei dychwelyd cyn pen y cyfnod 30 diwrnod hwn.

Os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd yn cael ei hystyried eich bod wedi ei derbyn, ac fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gamau gorfodi.

Os byddwch wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylech ddweud wrthym cyn gynted â phosibl.

## Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os rhoddir rhodd i chi ar ran rhywun arall, rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r rhodd i chi (yr asiant) ddweud wrthych:

- bod y rhodd ar ran rhywun arall
- beth yw manylion y gwir roddwr

Os credwch y gall rhywun fod yn gweithredu fel asiant, rhaid i chi ganfod y ffeithiau fel eich bod yn medru gwneud y gwiriadau cywir.

Enghraifft o rywun yn gweithredu fel asiant yw pan fydd trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo'r elw a godwyd mewn cinio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian i'ch sefydliad chi.

Pwysig

Os nad ydych yn siŵr pwy ddylai gael ei drin fel y rhoddwr (yr unigolyn sy'n trosglwyddo'r rhodd neu rywun arall), ffoniwch neu anfonwch e-bost atom am gyngor.

## Pryd fyddwch chi'n 'derbyn' rhodd?

Rydych fel arfer yn 'derbyn' rhodd ar y diwrnod y byddwch yn cymryd meddiant arno.

Er enghraifft:

- Os rhoddir taflenni am ddim i chi, rydych yn derbyn y rhodd pan drosglwyddir y taflenni i chi.
- Os rhoddir siec i chi, rydych yn derbyn y rhodd ar y diwrnod y bydd y siec yn clirio.
- Os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, rydych yn derbyn y rhodd ar y dyddiad y byddwch yn gwirio eich cofnod banc ar-lein neu y byddwch yn cael eich hysbysu gan y banc eu bod wedi ei dderbyn.

## Sut allwch chi ddychwelyd rhodd?

Os byddwch yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi ddychwelyd y rhodd iddo ef neu hi.

Os yw'r rhodd o ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd ariannol ddienw o £550), rhaid i chi ei dychwelyd at:

- yr unigolyn a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd

Os na allwch chi adnabod yr un o'r ddau, rhaid i chi anfon y rhodd atom ni. Byddwn yn ei thalu i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

Os byddwch wedi cael llogau ar y rhodd cyn ei dychwelyd, gall eich sefydliad ei gadw. Nid yw hyn yn cael ei drin fel rhodd ac nid oes raid rhoi adroddiad amdano.

## Rhoddion o £500 neu lai

Mae rhoddion o £500 neu lai tu hwnt i gwmpas PPERA ac nis oes angen i chi eu cofnodi na rhoi adroddiad arnynt.

Ond, byddwch yn effro rhag sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod rhoddwr yn ceisio osgoi PPERA trwy wneud cyfres o roddion bach, er enghraifft, os bydd nifer o roddion o £400 yn cael eu rhoi gan yr un ffynhonnell mewn amgylchiadau tebyg.

Os credwch fod hyn yn digwydd, efallai, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost i gael cyngor.

**Pwysig**

Mae'n drosedd ceisio osgoi'r rheolaeth ar roddion.

# Sut allwch chi brisio rhodd?

Gwerth rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn yr ydych yn ei dderbyn a'r swm (os o gwbl) y byddwch yn ei dalu amdano.

Os rhoddir eiddo, nwyddau neu wasanaethau am ddim, neu ar ostyngiad anfasnachol, rhaid i chi eu prisio ar gyfradd y farchnad.

Er enghraifft:

| **Cyfradd y farchnad am y nwyddau** | - | **Pris a dalwyd gennych chi** | = | **Gwerth y rhodd** |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £400 | = | £600 |

Neu:

| **Cyfradd y farchnad am wasanaethau** | - | **Pris a dalwyd gennych chi** | = | **Gwerth y rhodd** |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £0 | = | £1,000 |

Os yw'r rhoddwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y maent yn eu codi ar gwsmeriaid tebyg. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel cyfradd y farchnad.

Os byddwch yn dal yn ansicr sut i brisio rhodd benodol, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost am gyngor.

Dylech gadw cofnod o'r modd y gwnaethoch lunio'r prisiad.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid eraill tebyg, fel gostyngiad am archebion mawr neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi yn benodol gan gyflenwyr.

## Prisio rhoddion pan fydd eich sefydliad yn trefnu digwyddiad neu'n darparu nwyddau neu wasanaethau

Os bydd eich sefydliad yn trefnu digwyddiad, neu'n darparu nwyddau neu wasanaethau, mae unrhyw elw o'r digwyddiad (neu'r nwyddau neu wasanaethau) yn cyfrif fel rhodd.

Gwerth unrhyw rodd yw'r elw a wneir gan y sefydliad gan bob rhoddwr.

Dylech gyfrifo faint mae hi'n ei gostio i'r sefydliad ar gyfer pob unigolyn sy'n mynychu'r digwyddiad, neu ar gyfer pob unigolyn sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau. Yna, tynnu'r swm hwn o'r hyn a dalwyd gan bob unigolyn i chi i ddarganfod gwerth y rhodd.

Os bydd y digwyddiad yn cynnwys arwerthiant, am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol: Prisio gwobrau arwerthiant

Er enghraifft:

| Cost y digwyddiad | ÷ | Pobl yn y digwyddiad | = | Cost i bob unigolyn |
|---|---|---|---|---|
| £25,000 | ÷ | 100 | = | £250 |

Felly:

| Swm a dalwyd gan yr unigolyn | - | Cost i bob unigolyn | = | Gwerth y rhodd |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 | - | £250 | = | £750 |

## Prisio rhodd trwy nawdd

Os bydd rhywun yn noddi cyhoeddiad neu ddigwyddiad ar ran y sefydliad, gwerth y rhodd yw'r swm cyfan y byddant yn ei dalu.

Rhaid i chi beidio gwneud unrhyw ddidyniadau ar gyfer unrhyw fudd y byddant yn ei dderbyn o'r nawdd.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol: Nawdd

# 10

## Prisio mathau eraill o roddion

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am brisio gofod swyddfa a staff ar secondiad yn y Papur arbenigol: Rhannu gwariant.

Os byddwch yn dal yn ansicr am werth rhodd, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost i gael cyngor.

# Pa gofnodion sydd arnoch angen eu cadw?

## Rhoddion yr ydych wedi eu derbyn

Os byddwch yn derbyn rhodd dros £500, rhaid i chi gofnodi'r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os yw'r rhoddwr yn gwmni, rhif cofrestredig y cwmni
- swm neu natur a gwerth y rhodd
- y dyddiad pan gyrhaeddodd y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

Rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel y mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr statudol berthnasol. Os yw'r rhoddwr yn etholwr tramor, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad cartref. Mae hyn oherwydd na fydd cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os yw'r rhoddwr yn gymdeithas anghorfforedig, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa. Mae hyn oherwydd nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig i gyfeirio ati.

Am ragor o wybodaeth ar ba gofrestri y dylech eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Gwiriadau pa roddion sy'n ganiataol i ymgyrchwyr di-blaid

## Rhoddion yr ydych wedi eu dychwelyd

Os byddwch yn cael rhodd o ffynhonnell nas caniateir rhaid i chi ei dychwelyd a chofnodi'r manylion hyn:

- swm neu natur y rhodd a'i gwerth
- y modd y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad pan wnaeth y rhodd gyrraedd
- y dyddiad pan wnaethoch ddychwelyd y rhodd
- y camau a gymerasoch i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu sefydliad y gwnaethoch ei dychwelyd iddo)

# Pa roddion y mae arnoch angen rhoi adroddiad arnynt?

Rhaid i chi roi adroddiad i ni am rai rhoddion a rhaid iddynt fod yn gyhoeddus. Rydym yn cyhoeddi manylion y symiau a'r un sy'n rhoi ar ein gwefan. Nid ydym yn cyhoeddi cyfeiriadau'r unigolion sy'n rhoi.

Rhaid i chi roi adroddiad ar:

- yr holl roddion nas caniateir
- yr holl roddion a ganiateir dros £7,500
- yr holl roddion a ganiateir sy'n fwy na £7,500 o'u hadio at ei gilydd o'r un ffynhonnell yn yr un cyfnod a reoleiddir

# Sut fyddwch chi'n rhoi adroddiad ar roddion?

Rhaid i chi roi adroddiad ar roddion i ni ar ôl pob etholiad fel rhan o'ch ffurflen gwariant, gan ddefnyddio'r manylion yr ydych wedi eu cofnodi.

Bydd y dyddiad y bydd yn rhaid i chi roi adroddiad i ni yn dibynnu ar faint fyddwch chi wedi ei wario ar eich ymgyrch.

Byddwn yn cyhoeddi dyddiadau ar gyfer pob etholiad yn ein cyfarwyddyd i flwyddyn benodol. Ond, fel canllaw, rhoddir y terfynau amser cyffredinol isod.

A yw eich gwariant ymgyrch yn **£250k neu is?**

Adrodd cyn pen **3 mis** ar ôl yr etholiad.

A yw eich gwariant ymgyrch **dros £250k?**

Adrodd cyn pen **6 mis** ar ôl yr etholiad.

Am ragor o wybodaeth ar wariant ac adrodd, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Rheoli gwariant di-blaid

Fe allwn gymryd camau gorfodi yn eich erbyn os na fyddwch wedi cyflwyno eich ffurflen mewn pryd.

# Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 0289 089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk